
Pennaeth Strategol

Mrs Sara Morris

✉ SaraMorris@gwynedd.llyw.cymru

☎ 01678 520278



Ysgol Bro Tegid

BALA

Gwynedd

LL23 7BN

Dydd Mercher Rhagfyr 13eg 2017

Annwyl rieni,

Fel y gwyddoch, ein lleoliad ar gyfer ein cyngerdd Nadolig i fod eleni oedd Neuadd Buddug a hynny oherwydd nad oeddem yn gallu rhagweld yn ôl ym mis Medi os oedd Ysgol Y Berwyn yn mynd i fod ar gael oherwydd y gwaith adeiladu. Fodd bynnag, wrth ymweld â Neuadd Buddug ddiwedd wythnos diwethaf a thrafod gyda swyddogion y Neuadd, cawsom ar ddeall mai dim ond lle i oddetu 250 sydd yno. Wrth gofio fod 131 o ddisgyblion yn yr ysgol eleni mae'n hollol amlwg nad yw Neuadd Buddug yn ddigon mawr ar ein cyfer. Rydym fel staff wedi trafod nifer o opsiynau, ac yn y diwedd yr opsiwn gorau i ni, gan feddwl am ddiogelwch cyn popeth arall yw **newid y lleoliad i Ysgol Y Berwyn.**

Mae'r dyddiad yn aros run fath sef Nos Lun 18fed o Ragfyr.

Byddwn yn cychwyn yn brydlon am 6.00 o'r gloch. Bydd sioe dosbarth derbyn, blwyddyn 1 a 2 yn gyntaf sy'n para am oddetu 30 munud. Bydd cyfle wedyn i rai sy'n dymuno fynd adref. Yna bydd sioe Blynnyddoedd 3 - 6 sy'n para oddeutu awr a chwarter. Gofynnwn yn garedig i'r disgyblion gyrraedd Ysgol Y Berwyn erbyn 5.45y.h yn eu gwisgoedd os gwelwch yn dda.

PWYSIG IAWN :-

Oherwydd y gwaith adeiladu yn Ysgol Y Berwyn nid yw'r Neuadd yn gynnes. Mi fydd gwresogyddion yn cael eu gosod yn y Neuadd ond mae'n bwysig gwisgo'n gynnes hefyd neu dewch a blanced os y dymunwch! Cofiwch ddweud hynny wrth aelodau eraill o'ch teulu sy'n dod i wyllo hefyd.

Gofynnwn yn garedig i chi fel rhieni beidio rhannu unrhyw 'fidio's' o'r cynhyrchiad ar wefannau cymdeithasol e.e Facebook oherwydd hawlfraint.

Tal mynediad ar y noson fydd :-

Oedolion £3.00

Disgyblion Uwchradd £1.00

Gyda diolch,

Mrs Sara Morris

